# BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 29 Mehefin 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd);

**Y Cynghorwyr:**
E. Dole, C.A. Campbell, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins, L.M. Stephens a J. Tremlett;

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
W. Walters, Prif Weithredwr;
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd;
J. Jones, Pennaeth Adfywio;
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);
D. Hockenhull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata;
G. Morgan, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.
**Rhith-Gyfarfod: 10.00 yb - 10.40 yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd P.M. Hughes.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. COFNODION - 1 MEHEFIN 2020**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 1 Mehefin 2020 gan eu bod yn gywir.**

**4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**
Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**5. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN YR AELODAU**
Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

**6. EFFAITH ECONOMAIDD COVID-19 AC ADFER**
Rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a oedd yn darparu asesiad o'r effaith yr oedd Covid-19 yn ei chael ar fusnesau yn Sir Gaerfyrddin ac yn nodi'r hyn a oedd yn bwysig iddynt yn y tymor byr, tymor canolig a thymor hir, fel y gallai'r Awdurdod roi'r cymorth y mae arnynt ei angen fwyaf yn y dyfodol.

Fel llwyfan i ddatblygu a chyflawni Cynllun Adfer Economaidd y Sir, sefydlwyd grŵp mewnol ar gyfer adfer Busnes, yr Economi a'r Gymuned i gydlynu'r gwaith o ddatblygu a darparu. Roedd y grŵp hwnnw wedi nodi nifer o gamau gweithredu drafft posibl a chynigion i'w hystyried ymhellach. Er mwyn symud ymlaen, roedd

Cyngor Sir Caerfyrddin yn ceisio defnyddio cyngor economaidd allanol i helpu i ddod â'r wybodaeth hon ynghyd a llunio cynllun ar gyfer prosiectau a thasgau'r dyfodol er mwyn darparu'r gefnogaeth gywir i fusnesau a chymunedau lleol. Byddai grŵp cynghori cyffredinol, sy'n cynnwys arweinwyr diwydiant allweddol yn y sector preifat, yn cael ei sefydlu i helpu i ddatblygu a mireinio'r cynllun drafft ac i roi arweiniad drwy'r argyfwng presennol. Byddai'r grŵp yn pennu'r weledigaeth a'r cyfeiriad ar gyfer adfer.
Croesawodd yr Aelodau'r strategaeth a nodwyd yn yr adroddiad a soniwyd am y cyfraniad pwysig y byddai caffael lleol a phrynu lleol yn ei wneud tuag at adfer economi Sir Gaerfyrddin mewn ardaloedd gwledig ac yn y prif drefi.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r strategaeth adfer ddrafft arfaethedig.**

## 7. DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2020-21

Rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a oedd yn rhoi manylion am ychwanegiadau i'r rhaglen gyfalaf a oedd wedi sicrhau cyllid allanol ers cymeradwyo rhaglen 2020/21 – 2024/25 ar 3 Mawrth 2020.
Dywedwyd wrth y Bwrdd fod yr Awdurdod, ers cyhoeddi'r agenda, wedi derbyn grant ychwanegol o £1.732m gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mesurau trafnidiaeth cynaliadwy lleol mewn ymateb iCovid-19. Diben y grant oedd cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni gwaith i sicrhau bod mesurau cadw pellter cymdeithasol yn parhau. Mae'r pecyn o gynlluniau'n cynnwys y canlynol:
Mynediad i ysgolion;
Ailddyrannu gofod ar y ffyrdd;
Trafnidiaeth Gyhoeddus;
Cadw pellter cymdeithasol ym mannau cyhoeddus;
Parcio;
Mân waith;
Seilwaith Addas i Feicwyr;
Mesurau teithio llesol mewn trefi gwledig.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad diweddaru'r rhaglen gyfalaf a chymeradwyo'r newidiadau, gan gynnwys derbyn y grant ychwanegol a nodwyd uchod.**

## 8. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys, ond manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i'r holl staff am eu hymdrechion parhaus i helpu i ymdrin â materion sy'n codi o'r argyfwng presennol a chynnal gwasanaethau rheng flaen.
Cyfeiriodd yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant at y ffaith bod rhai ysgolion wedi ailagor yn gynharach yn y dydd, er mewn capasiti cyfyngedig oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol, a thalodd deyrnged i'r holl swyddogion, penaethiaid, staff ysgol a chyrff llywodraethu a oedd wedi gweithio'n galed i wneud hyn yn bosibl. Mynegodd y gobaith y byddai canllawiau manwl yn dod i law yn fuan gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf ym mis Medi.

**Y CADEIRYDD** **Y DYDDIAD**